OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2018 Rhif 1049 (Cy. 219)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Hydref 2018* |
| *Yn dod i rym* | *14 Hydref 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2018 a daw i rym ar 14 Hydref 2018.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period"*) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 14 Hydref 2018 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" (*"the trunk road"*) yw Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion.

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 8 Hydref 2018

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Heol Cennen, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o groesfan rheilffordd Ffair-fach i'w chyffordd â mân gylchfan Ffair-fach.

Y darn o'r gefnffordd o'r enw Teras Tywi, Ffair-fach, Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn o'i chyffordd â mân gylchfan Ffair-fach i Bont Llandeilo.